YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] HYDREF, 1895. [RHIF 94.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

YR HYN ACHOSODD Y DIWYGIAD PROTESTANAIDD.

WRTH ein bod yn ymgynnyg at geisio olrain hanes dadblygiad rhyddid barn a chydwybod, a tharddiad ffynnonell cydraddoldeb deiliadol yn ngwladwriaeth Lloegr, yr ydym mewn modd anymwybodol i ni ein hunain yn llithro yn ol mor bell â'r pedwerydd canrif ar ddeg.

Mae haneswyr y cyfnod hwn, gan mwyaf, yn unfryd unfarn yn addef, a hyny mewn modd diamwys, mai dyma y cyfnod sydd yn cynnwys y dygwyddiadau rhyfeddaf yn hanes llywodol holl deyrnasoedd y ddaear. Nodweddir ef uwchlaw pob cyfnod arall gan eithafion cymmeriadau personol a chymdeithasol, yn nghyd â'r tueddiadau dealldwriaethol a ddadblygwyd ynddo—gan ryw yni angerddol—gan ddeffroad meddyliol disymwth—a chan yr adlewyrchiad tanbaid hwnw a rydd i ni o ansawdd crefydd a safle cymdeithas, ac o'r tywyllwch moesol, a'r cysgadrwydd meddyliol diymadferth oedd wedi gordoi byd ac Eglwys, ac wedi meddiannu pawb am y deg canrif blaenorol i hyny. Dyma'r cyfnod sydd yn codi'r llen i ni gael cipolwg ar erchyllderau cymdeithasol y Canol Oesoedd, neu yn fwy dynodiadol, "Yr Oesoedd Tywyll"—yr oesoedd mwyaf darostyngol ac andwyol i ryddid ac iawnder a aethant dros ben dynolryw yn unrhyw gyfnod o'i hanes; ac o'r cyfnod hwn y safwn arno, yr ydym yn canfod ei echryslonrwydd a'i erchyllderau yn eu lliw a'u llun priodol.

Oddeutu canol, neu yn hytrach yn gynt nâ chanol y pedwerydd canrif ar ddeg, yr ydym yn canfod fod yr holl fyd yn dechreu teimlo oddiwrth effeithiau neu ddylanwadau y cyffrawd mawr hwnw oedd yn dechreu ysgwyd a deffroi cymdeithas i'w seiliau yn mhob congl

o'r byd gwareiddiedig, a'r hwn yn y diwedd drawsnewidiodd, trwy ei nerth anorchfygol, bob rhyliw o gaethiwed a gwaseiddiwch gwriogaethol i awyddfryd am fwynhad o ryddid personol, cymdeithasol, a chrefyddol. Ac wrth ein bod yn manwl sylwi ar weithrediadau y canrif hwn yn eu gwahanol arweddion, canfyddwn yn eglur mai i ddylanwad y cyffrawd y soniasom am dano yr ydym ni yn ddyledus am y rhyddid a'r cydraddoldeb cyflawn a fwynhawn yn yr oes hon yn bersonol, cymdeithasol, a gwleidiadol. Bu y cyffrawd ofnadwy hwn yn gyfrwng i godi amryw fathau o ysprydion o feddau trais a gormes, a methiant hollol fu pob dyfais i'w gosod i lawr byth wedi hyny.

Bellach, dyma doriad gwawr, a dyma ddechreuad cyfnod newydd yn hanes rhyddid—rhyddid yn ei ystyr helaethaf a mwyaf dyrchafedig, a hyny yn y gwrthgyferbyniad mwyaf eithafol i'r gormes a'r trahausder y bu pawb yn ddarostyngedig iddo drwy ystod y canrifoedd blaenorol, pan yr oedd gormes a'i gwialen haiarn yn teyrnasu dros wyneb y ddaear—cyfnodau o ormes a thrais yn eu harweddion hyllaf a mwyaf darostyngol—cyfnodau o gaethiwed gwriogaethol—cyfnodau o waseiddiwch personol a meddyliol, yn gymmaint felly fel na feiddiai neb o'r werinos ddatgan ei feddwl yn erbyn camymddygiad ei uwchafiaid, dan berygl iddo golli ei fywyd neu fforffedu ei hawl i'w holl eiddo personol, nes bod yn ysgymunbeth yn y Wladwriaeth. Bellach, y mae hyn yn cyflym fyned heibio: y mae y werin yn deffroi, ac yn dechreu teimlo eu gwerth a'u pwysigrwydd yn y Llywodraeth, ac yn hawlio eu cydnabod fel deiliaid annybynol yn y Wladwriaeth; y mae egwyddorion rhyddid yn cael eu dadleu yn groew yn y wlad hon ac ar y cyfandir, ac yn ennill tir. Ond gan fod y gallu eglwysig mor ffafriol i bob gormes a thrahausder, ac am fod awenau pob awdurdod *wladol* yn gystal ac eglwysig yn nwylaw yr offeiriaid, ni chaniataent ar un cyfrif i'r gallu hwnw fyned o'u dwylaw, a gwnaeth y gallu eglwysig bob peth ag oedd yn ddichonadwy yn erbyn pob dylanwad a fuasai yn hyrwyddo dyrchafiad cymdeithasol ac eangiad rhyddid personol. Y gallu gormesol creulonaf a welodd y byd erioed oedd y gallu eglwysig: yn lle bod yn fendith yn llaw Duw er daioni, bu yn felldith i bawb. Yn ngwyneb fod y gallu eglwysig mor wrthwynebus i bob dadblygiad cymdeithasol, bu gorfod i Ddraig Wen Rhyddid ymladd yn galed am oesoedd yn erbyn Draig Goch Gormes am yr oruchafiaeth; ac yn y canrif dan sylw wele Ddraig Gormes yn gorfod ffoi i'w lloches, a Draig Rhyddid yn cymmeryd y flaenoriaeth, ac yn cyhwfan baner wen iawnder a chydraddolder. Yn ngwyneb cynnydd addysg a phob gwybodaeth o'r hyn sydd iawn a chywir, ac yn ngwyneb eangiad a diwylliad pob cangen o wybodaeth ag sydd yn cydnabod dyn yn ddyn, nid ydym yn canfod un perygl i Ddraig Gormes godi ei phen byth ond hyny i allu drygu dim o'n mwynhad na chwtogi dim ar ein rhyddid personol, cymdeithasol, na llywodol.

Nodweddir y cyfnod hwn fel boreuddydd anturiaeth a darganfyddiadau, nid yn unig yn Lloegr, eithr ar y Cyfandir yn ogystal; a

gŵyr pawb am y darganfyddiadau mawrion a wnaed yn mhob cyfeiriad o'r belen ddaearol gan anturiaethwyr y canrif hwn a'r un dylynol. Eithr yr hyn sydd yn nodweddu y cyfnod hwn yn benaf yw, mai dyma'r pryd yr adferwyd i ddyn ei freiniau cynhenid, a'i hawl i farnu a gweithredu yn ol argyhoeddiad ei feddwl a'i ewyllys ei hun. Mae rhyddid barn yn hawlio rhyddid personol, ac y mae rhyddid personol yn hawlio cydraddoldeb cymdeithasol a gwladwriaethol.

Yn ngwyneb y fath gyffroad disymwth ac annysgwyliadwy, yr hwn a siglodd gymdeithas i'w seiliau, y mae yn naturiol gofyn, Beth achosodd y fath gyffroad? A ellir cyfrif am y cyffrawd hwn oddiar safbwynt cymdeithasol? Trwy ba gyfryngau yr amlygai y cyffrawd hwn ei hun yn benaf ac amlycaf? I geisio ateb y gofyniad beth achosodd hyn, rhaid i ni edrych ar ansawdd cymdeithas yn gyffredinol yn y wlad hon ac ar y Cyfandir. Beth oedd yn nodweddu cymdeithas yn y cyfnod hwn? A oedd cymdeithas yr hyn y dylasai fod? Beth oedd ansawdd y werin-bobl? Pa barch oedd i'r tlodion yn y wlad? A oedd rhyw sylw yn cael ei wneyd o honynt yn eu henbydrwydd a'u hangenoctid? A oedd rhyw ddarpariaeth yn cael ei gwneyd er lleddfu eu cwynion, a'u dyrchafu o afaelion ing a newyn? Hefyd, gellir gofyn pa arwedd oedd i'r galluoedd gwladwriaethol? A oedd y cyfryw alluoedd llywodol y pryd hwn yn amcanu at iawn ddeddfu, ac yn ymegnio at iawn weinyddu barn a chyfiawnder yn eu llysoedd i'r deiliaid gorthrymedig? Neu a oedd y gallu eglwysig, yr hwn, yn ystod y Canol Oesoedd, oedd wedi codi i'r fath safle o awdurdod a dylanwad, ac wedi cydgyfarfod yn yr offeiriad, yn cael ei ddefnyddio ganddynt, fel arweinwyr a blaenoriaid mewn moes a chrefydd yr adeg hon, yn deilwng o Efengyl Crist fel y dangosir hi yn y Testament Newydd? Cymmerwn gipolwg fer ar y tri dosparth crybwylledig fel achosion cynhyrfiadol i'r Diwygiad Protestanaidd yn Mhrydain.

Yr oedd y werinos wledig dan warogaeth i'r arglwyddi tymhorol —yn gorfod gweithio a llafurio mewn caledi a phob gorthrwm, a hyny heb gael dim tâl ond yn unig eu cynnaliaeth; ac yn ddarostyngedig ac agored i gael eu gwerthu gyda'r tir neu'r ystâd y perthynent iddo. Os elai yr arglwydd neu y marchog i ryfel yn erbyn marchog arall, yr oedd yn rhaid iddynt hwy ufuddhau yn ddirwgnach a diammodol. Yr oeddynt yn llwyr at ewyllys perchen y tir, i wneyd â hwy fel y gwelai efe yn dda. Nid oedd bywyd yn y wedd hon yn amgenach nâ bywyd anifeiliaid direswm. Felly, yr oedd sefyllfa gymdeithasol y werinos wedi syrthio i'r safle mwyaf darostyngol a gorthrymus. Ond fel y mae un eithafion yn creu eithafion arall, felly eithafion gorthrwm a gormes greasant yni ac ymroad yn y gorthrymedig am fwynhau rhyddid a iawnder; a phan y mae y werin a'r miloedd yn dechreu teimlo dros eu cyflyrau eu hunain, y maent yn allu ofnadwy, ac yn anorchfygol yn eu hymdaith; ac yn y canrif hwn gwelwn y werin am y tro cyntaf erioed yn dechreu teimlo eu pwysigrwydd a'u gwerth yn y Wladwriaeth, ac yn dechreu hawlio

eu rhyddid. Dyma'r ysgogiad cyntaf a ganfyddwn at ddiwygiad, sef awyddfryd yn y werin am fwynhau melusion rhyddid personol a chymdeithasol, yn lle dwyn iau gorthrwm a byw yn nghanol tlodi ac angen. Dyma un o achosion cyntaf dechreuad y Diwygiad Protestanaidd, sef llais y werin yn gwaeddi am eu hiawnderau cymdeithasol.

Mewn atebiad i'r ail ofyniad, sef, A oedd y gallu llywodol yn iawn ddeddfu ac yn iawn weinyddu barn yn y llysoedd? Atebwn yn groew, Nac oeddynt mewn un modd yn y byd. Yr oedd pob dyfarniad yn myned o blaid y sawl oedd â mwyaf o ffafr iddo yn y llys. Felly, nid iawnder oedd gweinyddiad cyfraith yr adeg hon, ond ffafraeth noeth a derbyn-wyneb, a'r mwyaf ei lwgrwobrwy oedd yn cael y trechaf ar ei erlynydd. Hawliodd y camymddygiadau cyfreithiol hyn ymhyriad y Llywodraeth, a gwaeddwyd yn uchel am ddiwygiad yn ngweinyddiad barn a chyfiawnder yn y llysoedd gwladol. Fel yr oedd y werin yn ddarostyngedig i'r Arglwyddi, felly yr oedd yr Arglwyddi yn ddarostyngedig i'r teyrn neu'r brenin; ond aeth gormes y teyrn mor annyoddefol a'i honiadaeth mor haerllug, fel y methodd yr arglwyddi â'i oddef, a gorfu ar y brenin roddi ffordd, a chafwyd y Freinlen Fawr wedi ei llawnodi yn Runnymede gan John. Gwelwn wrth hyn fod yr arglwyddi tymhorol yn dechreu gwaeddi am ddiwygiad gwladwriaethol.

I'r ymholiad arall, sef, Beth oedd nodwedd y gallu eglwysig? atebwn mai ariangarwch, a'r pechod hwn yw gwraidd pob drwg. Bydolrwydd oedd bwyd a diod yr offeiriaid yn eu holl ymwneyd a'r gwasanaeth eglwysig: rhwysg, mawredd, ac ysplander, a nodweddent yr holl adeiladau eglwysig. Yr oedd yr offeiriaid yn byw mewn glythineb, godineb, a meddwdod, oes ar ol oes, ac nid oedd a feiddiai eu ceryddu dan boen ysgymundod a marwolaeth dragwyddol. Yr oedd ofn ac arswyd ar bawb rhag tramgwyddo y gwyr eglwysig, o herwydd honent fod pyrth nefoedd ac uffern yn eu dwylaw, a'r neb a fynent a ollyngent i fewn, ac felly, hawlient yr ymostyngiad llwyraf gan bawb, ac ni feiddid eu nacâu iddynt ychwaith mewn na llys na llan. Er i Grist ddywedyd yn hyglyw, "Fy mreniniaeth I nid yw o'r byd hwn," gwelwn fod "Ficer" Crist yn Rhufain wedi troi yr ymadrodd yn hollol groes, oblegyd honodd iddo ei hun yr awdurdod driphlyg hono, sef (1) Annybyniaeth benadurol, (2) Uwchafiaeth ar yr Eglwys Gristnogol, (3) Rheolaeth ar dywysogion a breninoedd y ddaear. (Hall, II., tud. 276). Mae yr egwyddor hon yn hollol groes i ddysgeidiaeth y Testament Newydd.

(I'w barhau.)

YR AFON YN Y NOS.

SWN yr afon sy'n rhyfedd—yn y nos;
Anian yw mewn mawredd!
Ar ei glan y treigla hedd;
Deil i hidlo hyawdledd.—BEN DAVIES, *Trebanos.*

CLADDFA YR ANNGHYDFFURFWYR:

BUNHILL FIELDS, CITY ROAD, LLUNDAIN.

PAN yn talu ymweliad â Llundain, nid yr un peth sydd yn tynu sylw pawb. Aiff pob un yn ol ei chwaeth mor bell ag y gall, ac ar ei ymweliad cyntaf, odid na fydd yn ceisio gael golwg ar gymmaint ag a all o'r prif olygfeydd. Os bydd ei amser yn brin bydd yn pacio llawer i ychydig, yn fwy er mwyn gallu dywedyd ei fod wedi eu gweled nâ dim arall. O'r tu arall, os bydd wedi bod yn Llundain ryw ddwsin o weithiau yn flaenorol, bydd ei symmudiadau yn fwy hamddenol, a chyfeiria ei sylw at bethau na freuddwydiasai am ymweled â hwy y tro cyntaf, a'r ail. Wrth gwrs, ar y troion cyntaf rhaid gweled y British Museum, a'r Kensington Museum, a Madame Tussaud's, Eglwys St. Paul, a'r Westminster Abbey, a'r Senedd-dai, &c., &c. Yn awr, yr oeddwn I wedi gweled y rhai hyn, ac yr oedd chwant arnaf y tro hwn gan fy mod yn y gymmydogaeth i gael tro trwy gladdfa enwog "Bunhill Fields."

Fe deimla'r amlafrif ddyddordeb mewn mynwentydd. Maent yn wahanol yn hynyma i'r athronydd Americanaidd Thurot, i'r hwn y priodolir y dywediad, "I take no interest in cemeteries, I have no friends there;" hyny yw, nid wyf yn teimlo dim dyddordeb mewn mynwentydd, nid oes genyf gyfeillion yno. Ar un olwg y mae llawer o athroniaeth yn y sylw hwn. Nid y dyn yw ei gorff; mae y corff fel ei wisg yn eiddo tymhorol iddo yn unig, ac i'w adael ar ol wedi gorphen ei wasanaeth. Y corff yw yr hyn a drosglwyddir i'r fynwent, a llwch y corff hwnw yn unig sydd yn aros ar ol. Ac etto nis gallwn lai, fwyaf o honom, nâ theimlo dyddordeb mewn mynwentydd. Perthyn iddynt *associations* – sut cawn ni ddywedyd?—cynnyrchant adgofion dyddorol. Teimlwn ddyddordeb ynddynt megys y gwnawn yn mhobpeth sydd yn rhoddi bodolaeth i adgofion dyddorol. Prif ddyddordeb Westminster Abbey yw'r meini coffa am fawrion ein gwlad. Pan ddaw'r Americwr drosodd i Brydain, y mae am weled Westminster Abbey, a'r tai y bu Carlyle, a Stuart Mill, a George Eliot, a Shakespeare, byw ynddynt. Y mae manau cyssegredig yn ein gwlad a gyssylltant yn naturiol ag enwau mawrion gymmwynaswyr y byd. Fel y gwna'r Americwr, fel y gwna'r Sais, fel y gwna'r Almaenwr a'r Ffrancwr, felly dylai'r Cymro, barchu enwogion ei wlad—Llewelyn ein Llyw olaf, ac Owen Glyndwr; a'r lleoedd y bu ein henwogion byw ynddynt; cartref John Penry, y merthyr, ger Llangammarch; eiddo William Morgan, cyfieithydd y Beibl; eiddo Edmund Prys, y Psalmydd; Fafasor Powel, Stephen Hughes, Philip Pugh, Jenkin Jones, Dafydd Llwyd, David Davis, Owen Rees, &c., &c. Y mae cofio am enwogion ein gwlad yn debyg o feithrin yspryd gwladgarol.

Treuliai James Hervey lawer o'i amser yn y fynwent, ac y mae

wedi cyhoeddi ei fyfyrdodau mewn llyfr. Yn blentyn mi deimlwn I ddyddordeb mawr yn myfyrdod John Parry, Llanelian, a'r pryd hwnw gallaswn adrodd llawer i bennill o hono. Paham y cara ieuenctid gyffwrdd â thant lleddf y delyn? A phwy nad yw'n gyfarwydd â myfyrdod Gray neu Dafis Castell Hywel:—

> "Dacw ddolef y ddyhuddgloch yn oer ganu cnul y dydd,
> Dacw'r ychain gwar, lluddedig, yn dod adre' i fyn'd yn rhydd," &c.

Mor ddesgrifiadol a chynhyrfus y cana:—

> "'Dall nac awel ber y bore, na gwaedd ceiliog uchel gân,
> Na whit gwenol lon foreol yn y lwfer uwch y tân,
> Na chorn helwyr, bloedd medelwyr, clych, taranau, na dae'r-gryn,
> Fyth ddihuno 'rhai mewn amdo sy yma heno'n drwm eu hun."

Yma derfydd pob gwahaniaeth:—

> "Beth yw mawrfri uchel achau, rhwysg a mawredd bonedd byd?
> Rhyw oferedd sal disylwedd, gwynt a gwagedd oll i gyd,
> Nad all estyn un fynydyn ar eu heinoes hwy na'u hedd;
> Holl ffyrdd llwyddiant a gogoniant a ddibenant yn y bedd."

Y mae Bunhill Fields yn fan cyfarfod enwau llu ardderchog o'r merthyron—merthyron mewn ystyr — annghydffurfiol. Cyfod dy het, frawd, dyma fan cyssegredig, *Campo Santo* yr Annghydffurfwyr, lle mae llwch rhai o'n saint wedi gorwedd am 200 o flynyddau, y rhai a ddyoddefasant yn achos cyfiawnder, y rhai a ddaliasant i fyny faner rhyddid cydwybod, ac a frwydrasant yn ddewr dros y gwirionedd.

A fyddwn ni yn anniolchgar i'r rhai a ennillasant i ni y gyfran helaeth o ryddid a fwynhawn heddyw? Edrychwn nas gadawn hi i lithro o'n gafael trwy ein hesgeulusdod ni. Y mae y *slave-catcher* ar y *look-out;* safwn ninau ar y *look-out*, a gwyliwn na'n dalier ni mwy dan iau caethiwed.

Nid oes claddu yn Bunhill Fields er's 30 mlynedd. Tua'r adeg hono gwnaed cais i gael y tir at adeiladu, a chyfrifid ef yn werth can' mil o bunnau; ond ystyriodd ereill y byddai yn warth tra-gwyddol, ac yn gyssegr-yspail o'r fath waethaf i'w droi yn dir adeiladu. Felly gwnawd ymdrech (1868), ac fe'i achubwyd i'r cy-hoedd, ac yn awr y mae'n fath o barc agored hyfryd, lle y gall y sawl a fyno fyned i fewn i fyfyrio neu i rodiana; tra mae yno rai mewn awdurdod i wylio na fyddo dim allan o le yn cael ei wneyd.

Tebyg fod yma gladdu wedi bod am ryw chwe' neu saith canrif, neu ragor, a thybir mai ystyr Bunhill yw *Bone-hill*. Y mae hanes am dano yn cael ei gau i fewn yn 1668. Dywedir nad oes dim llai na chwe' ugain mil wedi eu claddu yma. Rhyw chwe' mil yw y meini coffa yma'n bresennol, a'r hynaf o'r rhai hyny â'r enw yn aros yw eiddo Debora Warr, "Nov. 10, 1623." Yr oedd y fynwent yn llawer mwy un amser nag yw yn awr. Rhoddwyd cenad i adeil-adu mewn manau o'r fynwent tua 150 o flynyddau yn ol. Yr oedd bedd George Fox, y Crynwr, yr hwn sydd yn awr yn y fynwent yn

Roscoe Street, un amser o fewn terfynau y fynwent hon. Claddwyd yma luaws o'r enwogion hyny a daflwyd allan o'u bywiolaethau trwy Ddeddf Unffurfiaeth yn 1662, a dywedir fod llu mawr o'r rhai a fuont farw o'r pla yn 1665 wedi eu claddu yma. Yr oedd o wyth i ddeuddeg mil yn marw o'r pla bob wythnos, ac ni ellid cael lle iddynt yn y mynwentydd plwyfol. Y mae llawer cof-feini nas gellir dim o'u darllen heddyw, ond bydd yr ychydig fywgraffiadau a ganlyn feallai yn ddyddorol i rai o ddarllenwyr YR YMOFYNYDD.

Yma y mae maen coffa am SUSANNAH WESLEY, mam yr enwog John Wesley, sylfaenydd y sect sydd yn dwyn ei enw. Bu farw 1742 yn 73 oed. Yr oedd yn fam i 19 o blant. Merch ieuengaf oedd i'r Parch. Samuel Annesley, D.D., yr hwn a fwriwyd allan o'r Eglwys trwy Ddeddf Unffurfiaeth. John Wesley osododd y maen i fyny er cof i'w fam.

JOHN BUNYAN (1628-1688), awdwr *Taith y Pererin*, a rhyw driugain o lyfrau ereill, tincer oedd wrth ei alwad. Cafodd ei garcharu ddeuddeg mlynedd am y trosedd o bregethu'r Efengyl.

DANIEL DEFOE (1661—1731), awdwr *Robinson Crusoe*. Cafodd yntau ei garcharu a'i osod yn y Pilwri am ffyddlondeb i gydwybod. Ei eiddo ef yw *Hanes y Pla*, 1665.

JOHN GILL, D.D. (1667—1771—), awdwr yr *Esponiad ar y Beibl*, a *Chorff o Dduwinyddiaeth*. Bu gweithiau DR. GILL yn achos llawer o ddadleuon ofer yn Nghymru y ganrif o'r blaen.

Y PARCH. JAMES HUGHES (Iago Trichrug) a anwyd yn y Neuadd-ddu, Ciliau Aeron, 1778, ac a fu farw 1844. Gweinidog y Methodistiaid yn Jewin Crescent. Claddwyd yn Bunhill Fields.

Y PARCH. JOSEPH HUGHES (1769—1833). Efe oedd sylfaenydd ac ysgrifenydd cyntaf y Feibl Gymdeithas.

ANDREW KIPPIS, D.D. (1725—1795), *favourite pupil* y Dr. Doddridge. Yr oedd yn awdwr enwog rhyw bump ar ugain o lyfrau gwerthfawr ac a adwaenir yn mhlith yr Undodiaid fel cyhoeddwr llyfr emynau fu mewn bri am lawer o flynyddau. Ei brif waith oedd cyhoeddi argraffiad newydd o'r *Biographia Britannica* yn bump cyfrol (1778—94). Traddodwyd pregeth angladdol iddo gan y Dr. Abraham Rees. Gosodai y Dr. *Philip* Doddridge y myfyrwyr i bregethu yn ei bwlpud ei hunan weithiau. Ar y cyfryw achlysuron eisteddai yntau ar ffrynt yr oriel ac yn wyneb y pregethwr, o bossibl er mwyn gosod prawf ar ei *nerves*. Un tro dygwyddodd y myfyriwr fod yn dipyn o *wag*, a thebyg nad oedd ganddo ddim gormod o *nerves* fel ag i beru blinder iddo. Fel arfer, yr oedd yr athraw yn ffrynt y *gallery*. Aeth y myfyriwr yn ei flaen yn weddol hwylus, a phan ddaeth at ei destyn, darllenodd gan edrych yn union yn ngwyneb Dr. Doddridge, "A ydwyf gyhyd o amser gyda chwi, ac nid adnabuost fi, *Phylip?*" (Ioan xiv. 9). Nid yw hanes yn dywedyd mai Kippis oedd y myfyriwr hwn.

Y PARCH. THEOPHILUS LINDSAY, M.A. (1722—1808). Cafodd ei ddwyn i fyny i fod yn offeiriad Eglwys Loegr, a bu am beth amser yn

Ficer Catterick, lle y cychwynodd Ysgol Sul tua 1766; ond er parch i'r gwirionedd ac er mwyn cydwybod dda, efe a roddodd i fyny ei holl ragolygon dysglaer, ac a fwriodd ei goelbren gyda'r Annghydffurfwyr. Sylfaenodd gapel Essex Street, y cyntaf erioed i gymmeryd yr enw Undodaidd. Yr oedd yn gyfaill anwyl i Dr. Priestley. Claddwyd gweddillion Mr. Belsham (1749—1829), ei olynydd yn Essex Street, yn yr un bedd. Dychweledig *(convert)* oedd Mr. Belsham hefyd.

Y Parch. Daniel Neal, M.A. (1678—1743), awdwr *Hanes y Piwritaniaid*. Daearwyd corff y Dr. Nathaniel Lardner (1722—1768), Awdwr *Credibility of the Gospel History*, yn yr un bedd.

Vavasor Powell (1618—1671). Bydd y bedd-ysgrif a ganlyn yn ddyddorol i'r sawl a ddarllenasant y bywgraffiad yn Yr Ymofynydd.

"Vavasor Powell, a successful Teacher of the past,
A sincere witness of the present, and an useful
Example to the future Age, lies here interr'd, who in the
Defection of so many, obtained
Mercy to be found Faithful; for which being
called to several Prisons, he was there tried, and
would not accept deliverance, expecting a better
Resurrection. In hope of which, he finished this
Life, and Testimony together, in the
11th Year of his Imprisonment, and in
the 53rd Year of his Age, Octob. 27, An. 1671."

"In vain Oppressors do themselves perplex
To find out Arts how they the Saints may vex,
Death spoils their Plots and sets the Oppressed free;
Thus Vavasor obtained true Liberty;
Christ him released, and now he's joyned among
The martyr'd Souls, with whom he cries, 'How long?'"—*Rev. vi. 10.*

D.S.—Y mae lluaws o berthynasau Cromwell wedi eu claddu yma. Yr oedd y Cromwelliaid yn berthynasau i deulu Aberpergwm yn Nghwm Nedd; a phan aeth byddin Cromwell trwy Gwm Nedd, bu siom iddynt am na chawsid groesaw a help gan y teulu, y rhai oeddynt, fel y rhan amlaf o brif deuluoedd Cymru, yn bleidiol i'r brenin. Y canlyniad o hyn oedd *orders* i saethu at dy Aberpergwm, a dywedir fod rhai o'r bwledi hyd heddyw yn meddiant y teulu.

[*Y gweddill yn ein nesaf.*]

GWLADGARWCH.

(Testyn Eisteddfod Merthyr Tydfil, 1825.)

Mawredd Gwladgarwch mirain,—sy'n haeddu
Sain addas arwyrain;
Eirian gerdd yr Awen gain,
Er mawrhad cariad cywrain,

A'i gywrain sail, gwron i'w swydd,—da brwd,
Heb rwysg hunanolrwydd;
I Ryddid car cyfarwydd,
A'i rodiad trwy'r wlad yn lwydd.

Llwyd o'i fedr diledrwy;—a'i ergyd
Ar bob gwyrgamp afryw,
I lidrwysg trais caledryw,
A'i galon wych gelyn yw.

Nid yw ef o nwyd hyfalch;—yn gyru
Y gwirion fel treiswalch;
Ei fâr sydd i waedgar walch,
A dofaidd i wr difalch.

Difalch geirwir ei dafod;—mae'n hawddgar,
Mewn awyddgyrch parod;
Cartref a wyr ei ddefod,
Yno'n glau mae'n iawn ei glod.

Clodfawr yw yn awr hyd y nen,—a'i nwyf
Yn hafaidd di gynen;
A'i ddiaball iawn ddiben
Cael hawddfyd trwy'r byd yn ben.

Pen dibaid canaid cynhes,—dros y iawn,
A'i drasau dirodres;
Un am wir-lwydd ein mawrles,
Gwych i'n dydd, llywydd ein lles.

Lles byth pob llys a bwthyn;—lles brenin,
Lles breiniau iselddyn;
Gwir leshad i'r mad a'i myn,
A gwaywloes i bob gelyn.

Gelyn llywodraeth golud;—a thaer waith
I'w tharo mae'n esgud;
Os ymyra'r trais mawr-hud,
Dewr was doeth yw dros ei dud.

Tud addien gwyr ag enaid;—anegwan,
Yn cefnogi dewr-blaid,
I dori rhwysg y diriaid,
Hyll ei bloedd gyda'i holl blaid.

O blaid y iawn heb lid anwar—mae'i fraich,
Am frawychu'r treisgar;
A da ymgais mae'n dwymgar,
Dibaid i'r gweiniaid yn gar.

Car da, cywir ei duedd,—golud gwyr,
Yw gwladgarwch ceinwedd,
Eu gwynfyd o hyd a'u hedd,
A'i fwriad oll yn Fawredd.

Y Parch. Thomas Evans (T. Glyn Cothi), 1766—1833.

YMWELIAD Y PARCH. R. SPEARS A CHYMRU.

Mae y dieithrwch sydd wedi bodoli am ormod amser rhwng yr Undodiaid yn Lloegr a'u brodyr o'r un ffydd yn Nghymru, bellach, yn dechreu cael ei symmud, ac mae'r ymgydnabyddiaeth hono sydd yn sicr o esgor ar fwy o gyfeillgarwch yn dechreu cael ei ffurfio. Prin y gwyddai ein cynnulleidfaoedd mwyaf blagurog yn Lloegr, y rhai a fynychid gan gyfoethogion ein trefi, am yr hunan-ymwadiad a'r ffyddlondeb annghymharol a nodweddai yr ychydig Undodiaid yn Nghymru. Yn Lloegr, marchogai yr aelodau i'r addoliad yn eu cerbydau, neu gyda'r trên, ac fe elai y gweinidog, os na ddygwyddai drigiannu gerllaw ei gapel, yno bron yn yr un ddull. Yn Nghymru, o'r tu arall, pwy na wyr am y teithiau y bu raid i'n gweinidogion fyned arnynt, gyda blinion draed, am flynyddau lawer, i wasanaethu mewn dau neu dri o gapeli, i ddeadelloedd o ffyddloniaid a ddeuent yno trwy y trwch a'r trin, i addoli Duw. Yr oedd y capeli hyn, lawer pryd, bron cyn belled oddiwrth eu gilydd a'r ddau begwn. Cydnabyddid llafur y gweinidogion yn Lloegr mewn modd anrhydeddus, tra y gwyddom am weinidogion yn Nghymru, etto yn fyw, a bregethasant am gryn dymhor am bum' punt yn y flwyddyn. Nid ydym yn gwneyd y gymhariaeth hon mewn un modd, er diraddio y naill ar draul dyrchafu y llall; ond ymfalchiwn yn y ffaith fod ein goreuwyr yn Lloegr yn dechreu sylweddoli yr hunanaberth ardderchog y mae Undodiaid llai breintiedig Cymru wedi ei ddangos wrth geisio bod yn ffyddlon i grefydd eu tadau. Yr ydym yn credu fod pob ymweliad â'n heglwysi gan y Saeson wedi gadael argraff swynol arnynt, ac wedi agor eu llygaid i'r anfanteision dybryd trwy ba rai mae lluaws o'n cynnulleidfaoedd wedi brwydro eu ffordd i sefyllfaoedd ag ydynt yn weddol rydd o bryder gyda golwg ar eu dyfodol. Mae yr yspryd llettygar yn fyw yn ein holl eglwysi. Pryd bynag y gwna estron ei ymddangosiad yn ein plith, mae pob un fel pe yn ymgypris am ddangos y parch a'r croesaw mwyaf calonog iddo. Mae ymweliad Mr. Spears, yn ddiweddar, yr hwn a ddaeth i rai o'n capeli, bron yn ddirybudd, yn enghraifft nodedig o'r croesaw parod a estynir gan ein pobl i ddyn dieithr. Yr ydym yn credu ein bod yn mynegu teimlad Mr. Spears ei hun, pan yn dweyd fod y derbyniad gwresog a gafodd, a'r cynnulleidfaoedd mawrion o wrandawyr astud a'i cyfarfyddent ef yn mhob man, yn mhell tuhwnt i'w ddysgwyliadau goreu. Nodwedd arbenig ei ymweliad, gallem feddwl, oedd yr awydd aiddgar a amlygid gan bobl oeddynt yn arferol o fynychu capeli yn y rhai y dysgid Trindod mewn Undod, i wrandaw ar y genadwri newydd oedd gan Mr. Spears i'w thraddodi iddynt. Dyweder a fyner, mae yr aflonyddwch meddyliol a fodola yn y byd duwinyddol yn arwyddocaol iawn, ac y mae'r eglwysi, os gallwn farnu wrth yr olwg, yn cael eu gwneyd i fyny o ddynion nad ydynt, mewn gwirionedd, yn credu yr hyn a broffesant gredu. Yn awr, beth ellir dweyd am

dorf o wyr deallus, gan mwyaf yn Drindodiaid, yn eistedd am yn agos i ddwy awr i wrando ar ddarlith ar brif bynciau ffydd yr Undodiaid, yn nghorff yr hon y dywedwyd amryw weithiau gan y siaradwr fod yn y Beibl tua wyth mil o adnodau yn dysgu Undod Duw, ac nad oedd yn yr holl lyfr gymmaint ag un adnod yn son am y Drindod, na dim i attegu unrhyw athrawiaeth o'r fath? Beth ellir ddweyd am dorf o bregethwyr a gwyr lleyg, pan y gwyddent yn eithaf da fod croesaw iddynt ar ddiwedd y cwrdd, naill i wadu y gosodiad, neu i ofyn cwestiwn, na feiddiodd un o honynt godi ar ei draed i yngan gair. Prin y gallwn gredu mai llwfrdra moesol a barodd iddynt i gyd i fod yn fud. Fel y dywedasom eisoes, nodweddid y gwrandawyr yn mhob cynnulliad y buom ni ynddo, a chawsom y fraint o fod yn bresennol mewn pedwar o'r cynnulliadau hyn, gan awydd a syched angerddol bron am glywed newyddion da Undodiaeth. Mae y rhagfarn yn erbyn ein henwad wedi ymwreiddio mor ddwfn, fel o braidd y gallwn ddarbwyllo ein hunain i gredu y deillia rhyw les mawr i'n heglwysi oddiwrth yr ymweliad hwn, hyny yw, trwy ychwanegu at nifer yr aelodau. Er hyny, credwn â'n holl enaid fod meddyliau lluaws wedi eu hagor, ac nad edrychant mwyach ar ein ffydd gyda'r un culni ag yr arferent wneyd. Yn mharthau Morganwg dieithriaid oeddynt y rhan amlaf o'r cynnulleidfaoedd a ymdyrent i wrando ar Mr. Spears; ond yn Sir Aberteifi, o hyn leiaf mewn rhanau o honi, ychydig o Drindodiaid a wnaethant eu hymddangosiad. Priodolir hyn, o bossibl, i'r ffaith nad oeddys wedi rhoddi cyhoeddusrwydd i'r darlithiau tufaes i derfynau yr enwad. Ai doeth neu annoeth hyn, nis gwyddom. Nid ydym am ddylyn Mr. Spears trwy ei gylch, a rhoddi manylion o bob cyfarfod y bu yn bresennol ynddo, ond yr ydym am roi i'n darllenwyr *idea* o'r derbyniad a gafodd efe a'i genadwri, ar y cyfan. Nis gall ei ymweliad lai na gwneyd lles dirfawr i achos crefydd ryddfrydig, a helpu, fel y dywedai efe ei hunan, i dynu i lawr ganolfuriau y gwahaniaeth rhwng y gwahanol sectau fel y gallo'r bobl siglo dwylaw drostynt.

MR. HUGH PRICE HUGHES A'R UNDODIAID.

Ymddengys nad yw y gwr parchedig uchod yn meddwl yn uchel am danom ni fel enwad. Fodd bynag, defnyddia bob cyfleustra a ddaw o fewn ei gyrhaedd i ddweyd rhywbeth yn anmharchus a diraddiol am danom. Yn ddiweddar, mewn cynnadledd a gynnaliwyd ar y cyfandir, wrth siarad ar y pwnc o addysg grefyddol yn ein hysgolion dyddiol, defnyddiodd y geiriau canlynol:—"Rhaid i ni ddweyd wrth Undodiaid, Atheistiaid, Agnosticiaid, Iuddewon, Mohammedaniaid, a Theosophyddion, a phawb ereill a ddichon wrthwynebu y fath gynnygiad, fod y mwyafrif o Saeson yn dymuno i'w plant gael addysg Gristionogol; eu bod hwy (sef y pleidiau

uchod) yn cael eu hamddiffyn yn ddigonol gan adran y gydwybod, ac na oddefir iddynt ymyryd â chyfundrefn genedlaethol o addysg." Mae'n anhawdd dweyd yn mha oleu i edrych ar y frawddeg uchod, yr hon a gynnwysa gymmaint o gam-osodiadau ag a ellid yn hawdd eu crynhoi i mor ychydig o le. Yn gyntaf oll, trwy ein henwi gydag Atheistiaid, Agnosticiaid, Iuddewon, Mohammedaniaid, a Theosophyddion, mae mewn effaith yn esgyn i ben y fainc farnol, ac yn gwadu ein hawl i gael ein rhestru yn mhlith Cristionogion ereill, yr hyn ni wneir heddyw ond yn unig gan anwybodusion a dynion wedi eu llwyr ddallu gan gulni a rhagfarn. Nid yw Mr. Hughes yn ddyn anwybodus; yn hytrach, mae yn ddyn o gyrhaeddiadau, yn ol ein tyb ni, tu hwnt i'r cyffredin; ac nid yw, fel y mae genym le i gredu, yn anadnabyddus â'n llenyddiaeth ac â'n prif ddysgawdwyr; ac nis gellir mewn canlyniad priodoli'r gosodiadau uchod i ddim amgen nâ'r culni a'r rhagfarn yn ein herbyn sydd yn amlwg wedi cymmeryd meddiant o hono. Myn gauad allan ddynion fel Dr. Channing, Theodore Parker, Dr. Martineau, a lluaws o ddynion ereill, carrai esgidiau y rhai nid yw y gwr parchedig dan sylw yn deilwng i'w dattod; dynion ydynt wedi cyssegru eu holl fywyd i gyhoeddi Cristionogaeth fel y dysgwyd hi gan Iesu Grist ei hunan, a bywydau y rhai ydynt wedi bod yn adlewyrchiad o fywyd yr Athraw mor gyflawn ag y mae yn bossibl i fywyd dyn fod yn adlewyrchiad o hono. Nis gallwn gredu fod y frawddeg a ddyfynwyd uchod yn gosod allan syniad y rhan fwyaf o weinidogion yr enwad y perthyna Mr. Hughes iddo; ac yn sicr y mae yn mhell o fod yn cynnrychioli syniad a theimlad John Wesley. Nid ydym yn gwrthod cymmeryd ein dosranu gyda'r pleidiau uchod o herwydd unrhyw ddiffyg parch iddynt; mae rhai o brif ddyngarwyr y byd wedi cael eu galw yn Atheistiaid; mae rhai o brif ysgolheigion ein hoes, enwau y rhai fyddant ar glawr am oesau, wedi galw eu hunain yn Agnosticiaid; yr oedd Iesu Grist ei hunan yn Iuddew; ac y mae genym y parch dyfnaf i lawer o ddynion sydd wedi galw eu hunain, neu wedi cael eu galw ar yr enwau uchod, am eu gwasanaeth i'w hil; a dymunem gyd-weithio â hwy, ac â phawb mewn pob gwaith da. Ond y mae gwahaniaeth pwysig rhyngom ni a hwy: yr ydym ni yn galw ein hunain yn Gristionogion, ond nid ydynt hwy yn gwneyd hyny. Yr ydym yn hawlio cael ein cydnabod fel Cristionogion am ein bod yn edrych ar Iesu Grist fel ein Hathraw a'n Blaenor penaf; a chredwn hefyd fod genym fwy o hawl i'r enw nag sydd gan ein brodyr Iawnffyddol, am y rheswm ein bod yn ymfoddloni yn unig ar addysgiadau Iesu Grist ei hunan, heb edrych arnynt trwy gredoau paganaidd. Os mai i'r sawl sydd yn cymmeryd eu dysgu gan Iesu Grist, ac yn cymmeryd eu harwain gan ei fywyd a'i esiampl, y rhoddir yr enw Cristion, yna yr ydym ni yn ei haeddu lawn cymmaint ag un enwad Cristionogol arall, a mwy yn ol ein barn ni. Ond tebyg y rhaid i gryn amser fyned heibio etto cyn y paid dynion dall-bleidiol a rhagfarnllyd hyrddio eu hanathemau yn ein herbyn, a'n cauad, mor bell ag y gallant

hwy, tu allan i furiau'r Eglwys Gristionogol. Cymmaint a hyn am y cam-osodiad cyntaf. Dyma'r ail: ein bod ni yn erbyn i blant gael addysg Gristionogol. Mae hanes yr enwad Undodaidd yn y gorphenol yn dangos mor bell ydyw'r fath osodiad oddiwrth y gwir. Undodwr oedd un o'r rhai cyntaf i ddechreu'r Ysgol Sul; ac y mae Undodiaid wedi cymmeryd rhan mor flaenllaw yn y mudiad hwn oddiar ei sefydliad hyd heddyw a neb. Ac yn erbyn rhoi addysg grefyddol a Christionogol yn ein hysgolion dyddiol, ni chredaf fod nemawr yn ein plith; hyny yw, os y golygir wrth addysg Gristionogol yr hyn a ddysgwyd gan Iesu Grist ei hun, ac nid y credoau sydd wedi ei ffurfio yn ei enw. Yr hyn a wrthwynebwn yw'r addysg a elwir yn Gristionogol, ond yr hon nad yw felly mewn gwirionedd. Nid yw Iesu Grist wedi son dim am gwymp, am Drindod, am Iawn, am dragwyddol gosp, ac yn y blaen; a gwrthwynebwn (a bwriadwn barhau) syniadau o'r natur hyn gael eu dysgu i blant mewn ysgolion sydd yn cael eu cynnal gan bob trethdalwr yn gyffredinol. Pan y dywed Mr. Hughes fod y mwyafrif o Saeson am i'w plant gael addysg Gristionogol, dichon ei fod yn iawn; ond credwn nad yw'r mwyafrif (o Saeson yn enwedig) yn meddwl dim am y mater. Ond a chaniatau ei fod yn iawn, pwy sydd, attolwg, i benderfynu beth yw'r addysg Gristionogol a ddylid ei chyfranu i'r plant? A ydyw barn Mr. Hughes yn cydfyned ag eiddo Cardinal Vaughan, y Pabydd, ac Archesgob Caergaint? Gwyddom yn dda nad yw. Nid oes eisieu son am y lluaws cangenau ereill i'r rhai y mae'r Eglwys Gristionogol wedi ei rhanu, gan bob un o'r rhai y byddai rhywbeth i ddweyd ar y mater. Felly nid yw ond ffolineb siarad am gyfranu addysg Gristionogol yn ein hysgolion dyddiol o dan yr amgylchiadau hyn, a gwell fyddai i Mr. Price Hughes, a phawb ereill sydd yn ymyryd a'r mater hwn, adael i'n hysgolion dyddiol i wneyd y gwaith arbenig a berthyn iddynt, ac i'r Eglwysi Cristionogol ofalu am addysg grefyddol y plant yn eu ffordd a'u dull eu hunain, fel y maent wedi gwneyd hyd yma. Gyda golwg ar y frawddeg olaf o'r dyfyniad uchod, sef, "na oddefir iddynt (h.y., yr Undodiaid, &c.) i ymyryd â chyfundrefn genedlaethol o addysg," dymunwn ddweyd fod genym hawl i wneyd hyny; ac yr ydym yn sefyll dros ein hawl. Ac y mae hanes addysg yn y gorphenol yn dangos nad oes gan addysg wedi bod well cyfeillion nag Undodiaid; a dymuniad pob Undodwr heddyw yw, fod yr addysg a gyfrenir i'r cenedlaethau sydd i ddod i fod yn fwy perffaith a defnyddiol nag yw wedi bod erioed yn y gorphenol.

ARGUS.

DODI'R dall ar ben dysgwylfa,
Dodi'r dwl i ddysgu tyrfa,
Dodi'r diddysg wrth y llyw,
Sy ddodiad dyn, nid dodiad Duw.

AIL UNIAD EGLWYSI CRED.

Yn y gorphenol y mae sectyddiaeth a dadleuaeth angharedig o bossibl wedi bod ormod yn y ffrynt yn Nghymru. Y pryd hwnw nid oedd pennill yr hen fardd, nad pwy oedd, yn dadgan ond y gwirionedd noeth:

> Mawr yw'r dadleu sy'n y gwledydd
> Yn nghylch corff a chadach crefydd;
> Ond am enaid crefydd burlan,
> Nid oes nemawr o ymddyddan.

Trueni o beth yw fod dynion yn ymranu ac ymryson yn nghylch y masgal tra yn gadael y cnewyllyn yn hollol ddisylw; yn awr fel cynt y maent yn fawr eu swn am y mintys a'r anis a'r cwmmin gan lwyr anwybyddu y pethau trymach, sef barn, a thrugaredd, a ffydd.

Ynddynt eu hunain nid oes dim drwg mewn amrywiaethau barn os byddant yn amrywiaethau gonest. Yn yr yspryd anffaeledig sydd mor fynych yn cydfyned a gwahaniaeth barn y mae'r drwg. Nid y Pab o Rufain chwaith yw yr unig foneddwr sydd yn amlygu yr yspryd anffaeledig, fe geir enghreifftiau o hono yn mhob dyffryn, fe allai yn mhob eglwys a chapel yn Nghymru. Rhaid yn nghwrs natur wrth wahaniaeth barn. Amrywiaeth ac nid unrhywiaeth ydyw rheol y bydysawd. Y mae ein diweddar gyfaill Gwilym Marles wedi canu yn ddoeth:

> Ceiliogod y fro ni ddeffroant i gyhoeddi y wawr yr un funyd,
> Ond doeth dduwinyddion ymroant gael dynion i gredu'r un ffunyd.

Y mae ymgais y duwinyddion mor resymol, neu mor afresymol yr un fynir, ag ymddygiad yr hen frenin hwnw gynt, yr hwn a dybiai y dylai pob deiliad o'i deyrnas ef fod yr un hyd ag ef ei hun, ac a ddyfeisiodd gynllun trwy yr hwn y gellid sicrhau yr amcan canmoladwy hwnw. Dyma'r cynllun, mynodd wely wedi ei wneuthur, ac yn hwn yr oedd pob deiliad i gael ei osod; ac os byddai dyn yn rhy fyr, yr oedd yn y gwely *stretcher* i'w ddwyn i'r hyd priodol; ac os byddai yn rhy hir, nid oedd eisieu ond tori tipyn i ffwrdd ar ei hyd.

Y mae'r argoelion yn cynnyddu ein bod yn raddol yn dyfod yn gallach yn hynyma. Cawn arwyddion o bob cyfeiriad o ddymuniad i ostwng y gwahanfuriau sectol, fel ag i allu o leiaf siglo dwylaw drostynt. Cydnabyddir fod gwahaniaeth, ac ar y cyfan cydnabyddir yr hawl sydd gan bob un i farnu drosto ei hun. Teimlir y dylai y gwahanol enwadau, y rhai nid ydynt mewn gwirionedd ond catrodau o'r un fyddin fawr ac yn cydnabod yr un cadfilwr, Iesu, ddyfod yn nes at eu gilydd, a cheisio mwy o gyd-ddealldwriaeth, ac os yn bossibl fwy o gydweithrediad. Da yw gweled yr awydd am undeb, er y dichon eu bod yn rhy gynar etto i ddysgwyl undeb agos a

helaeth. Rhaid treulio llai o amser yn hollti blew duwinyddiaeth, rhaid cydnabod hawl pob un i'w farn personol, ac mewn yspryd cariad brawdol fe fydd rhaid wrth lawer o gydymddyddan a llawer o gymharu safleoedd, ac fe ddeuir i ddeall bob yn ychydig fod gan yr holl enwadau yr un amcan mewn golwg—lles uwchaf dynoliaeth.

Y mae'r gwahaniaeth mor fychan cydrhwng llawer o'r enwadau fel y mae'n anhawdd deall paham na ellid cael undeb a chydweithrediad ar bob peth ond ar yr ychydig bynciau y gwahaniaethir yn eu cylch. Fynychaf y mae'r pynciau y cydunir yn eu cylch yn lluosocach ac yn bwysicach na'r rhai y gwahaniaethir arnynt; a phe ceisiai dynion y llinellau sydd yn uno yn hytrach na'r rhai sydd yn rhanu, credwn y ceid yn fuan agwedd newydd ar grefydd; ond fel mae gwaethaf y modd po leiaf fyddo'r gwahaniaeth, mwyaf i gyd fydd yspryd yr anghariad yn llywodraethu.

Nis gwyddom amcan Dr. Lunn fe allai, ond pell fyddo oddiwrthym ni i briodoli gau amcanion iddo fel y gwna llawer. Ei amcan proffesedig yw, wrth ddwyn yr enwadau at eu gilydd, eu cael i adnabod eu gilydd yn well a thrwy hyny i barchu eu gilydd yn fwy. Gellir meddwl fod yr amcan a'r cynllun yn ardderchog, ac yn gyfryw ag a allai fod yn gynnorthwyol iawn i'r undeb y dyhëir cymmaint am dano. Y mae'r cynnrychiolwyr dan arweiniad Dr. Lunn wedi cwrdd dair gwaith yn awr—unwaith bob blwyddyn—yn Grindelwald, yn Switzerland, ac ymddengys pawb wedi eu boddhau i'r eithaf. Y mae llawer barn wedi ei chyhoeddi a llawer cynllun wedi ei osod ger bron; ond hyd yma nid oes yr un ger bron ag sydd yn hollol ymarferol, ac y gellir dysgwyl i bawb gyduno yn ei gylch. Mae'r Cynnadleddau wedi tynu sylw cyffredin ac wedi dyfnhau yr awydd am undeb; ond y mae pob *programme* hyd yma yn dangos yr un gwendid, yr anhawsdra a'r anallu i dynu ymaith y spectol enwadol fel ag i allu cael golwg glir a diragfarn ar y sefyllfa. Pan yn gwisgo'r spectol enwadol ymddengys y ffordd yn glir i bob un. Beth sydd yn rhwyddach? meddai'r Pab. Nid oes ond un peth yn angenrheidiol, ymostwng i'r Pab, dychwelyd at y Wir Eglwys, a chydnabod awdurdod pen gweledig Eglwys Crist. Er ys llawer canrif bellach y mae holl eglwysi'r byd yn gorwedd dan farn esgymundod—Eglwys Rhufain wedi esgymuno Eglwys Roeg ac Eglwys Loegr, a hwythau yn eu tro wedi dychwelyd y *compliment* a gwneuthur yr un peth y naill i'r llall. Ond heddyw y mae awydd am undeb—y mae heddyw blaid luosog yn perthyn i Eglwys Loegr yn awyddu am undeb a'r Fam o Rufain. Ystyriai Eglwys Loegr ei hunan gynt yn rhagfur a gwrthglawdd amddiffynol yn erbyn Pabyddiaeth; ond yn awr, pan mae'r offeiriaid Anglicanaidd, fel y maent yn caru galw eu hunain, yn edrych ar yr enw *Protestant* fel yr un salwaf yn y geiriadur, y mae'n amlwg fod pethau wedi newid yn fawr. Nid yw meddyginiaeth Archesgob Caergaint yn gwahaniaethu dim ond yn y label oddiwrth eiddo y Pab o Rufain; rhaid derbyn crefydd yr Olyniaeth Apostolaidd fel y mae yn cael ei hesponio a'i hegluro yn y Llyfr Gweddi Gyffredin, a dyna'r undeb wedi ei sicrhau. Nid ydym yn gwybod

yn sicr pa nn ai mewn difrifwch ynte mewn difyrwch y mae y Parch. J. A. Morris (Bedyddiwr) wedi llefaru; ond yr ydym wedi clywed iddo ef ddywedyd yn ddiweddar fod ganddo ef feddyginiaeth sicr ar gyfer y clefyd enwadol—syml iawn hefyd—ond fod yn rhaid i'r holl enwadau gwrdd "yn nghanol yr afon." *Try again*, frodyr, ceisiwch etto. Yn ein golwg ni y mae y naill o'r cynlluniau yma gystal a'r llall, ond ni cheir byth undeb ar hyd llinellau enwadol. Ofer dysgwyl am undeb tra'n gosod pwys ar y pethau sy'n gwahanu. Rhaid yw caniatau i bob enwad ei nodweddion gwahaniaethol ac amcanu nid at ddyddimu enwadaeth, nid at undeb mewn barn, ond at undeb mewn yspryd; cadw undeb yr yspryd yn nghwlwm tangnefedd.

Yr oeddym wedi ysgrifenu hyd yma, pan y darfu i ni glywed fod erthygl mewn llaw ar orchestion y Parch. Hugh Price Hughes, yn Grindelwald; ac felly rhag ini fyned ar draws ein gilydd, dyma ni yn stopio ar unwaith. Yr oeddym wedi parotoi math o ysgrafell, ond da genym nad oes galw arnom ei defnyddio. Carwn heddwch ond nid ydym yn caru y dull y mae Mr. Price Hughes wedi gymmeryd i gynnal heddwch. Nid yw galw enwau cas ar wrthwynebydd a'i restru gyda gwehilion tybiedig y ddaear erioed etto wedi bod yn ffafriol i heddwch. Gwyddom nad yw Mr. Hughes ddim yn caru ein enwad ni, ond ofnwn ei fod yn fwy dan ddylanwad yspryd yr "*after dinner*" nag yspryd crefydd pan wnaeth ei *speech* sydd wedi creu cymmaint o *sensation*.

> "'Reunion' is thundered at us,
> Though necks still grow stiffer and stiffer;
> Far better than impotent fuss
> Were a wholesome agreement to differ."

T.C.U.

FAFASOR POWEL (1617—1671).

(At y Golygydd.)

Syr,—Yr wyf am ddiolch yn wresog i Gwernyfed am ei fywgraffiad dyddorol o'r Merthyr Cymreig. Offeiriad Merthyr Tydfil, onide, fu'n offerynol iddo gael myned i'r carchar y tro diweddaf, ac i beri terfyniad anamserol ar ei einioes. Y mae amryw bethau y caraswn pe buasai Gwernyfed wedi bod yn alluog i'w gwneuthur. Cafodd Fafasor Powel ei eni yn Nghymru, ond a fedrai efe Gymraeg? Seisnig hollol yw Swydd Faesyfed heddyw, ond pa beth oedd y pryd hwnw? Seisnig yw yr oll o'r llyfrau a gyhoeddwyd gan Powel, mor bell ag y gwn I. A ddarfu iddo ysgrifenu rhywbeth yn y Gymraeg? Fy nghred I yw ei fod yn Gymro, ac y medrai Gymraeg; ond ar dir tebygolrwydd yr wyf yn credu, nid oes genyf brawf. Yr un peth am John Penri, Walter Cradock, William

Erbury, a Wroth, nid oes dim llenyddiaeth yn ngweddill ar ol un o honynt yn yr iaith Gymraeg; ond nid wyf yn gallu gweled sut y gallent gyflawnu eu gwaith cenadol yn Nghymru heb wybodaeth o'r Gymraeg. Cymraeg oedd iaith ardal Iolo Morganwg yn y ganrif ddiweddaf; pa faint yn fwy felly yn y ganrif flaenorol. Profion diymwad, fodd bynag, sydd yn eisieu. A ydynt i'w cael?

Nid yw yr emyn, "Beth sydd imi yn y byd," yn brawf y medrai Mr. Powel Gymraeg. Yn y lle cyntaf, y mae amheuaeth yn nghylch ei awduraeth. Fel y dywed Gwernyfed, fe'i priodolir i Morgan Rhys. Ymddengys yn ddarluniad cywir o helbulon bywyd Fafasor Powel, a thebyg ddigon ei fod yn adsain agos cywir o'i syniadau duwinyddol. Ond dyma anhawsdra, nis gall fod ond yn ail-law i Fafasor Powel; ac os na ellir dyfod o hyd i'r Saesneg gwreiddiol, bydd mwy nag amheuaeth yn aros. Y mae'n wir fod yn y bywgraffiad Cymraeg emynau wedi eu cyfieithu allan o rai Saesneg Fafasor Powel gan W. Risiart. Pwy oedd hwn? A phwy oedd D. Risiart, ysgrifenydd y bywgraffiad? Os yw yr emyn dan sylw, "Beth sydd imi yn y byd," yn un o emynau Powel, eiddo W. R. yw yn ei wisg Gymreig. Nid yw Gwernyfed, dybiaf, yn ei ddyfynu yn holl gywir, nac ychwaith yn rhoddi yr oll. Mae yn bedwar pennill. Cyhoeddwyd bywgraffiad Seisnig Fafasor Powel yn 1671, ac y mae amryw emynau yn hwnw, ond nid yw hwn yn un o honynt. Yn y bywgraffiad Cymraeg, 1772, rhoddir emynau cyfieithedig W. R. o'r bron, ac yna rhoddir ychwanegiad o wyth o emynau dan bennawd newydd, "Griddfanau'r Credadyn," ac wedi eu rhifnodi o'r newydd. Paham hyny, os golygir eu priodoli i Fafasor Powel? A dywedyd y lleiaf, mae y pwnc yn amheus. Y mae Gwernyfed wedi ysgrifenu ar y pwnc o'r blaen, ac yr oedd yn eithaf iawn yn gwneuthur hyny. Ymddangosai amheuaeth, a theg oedd ceisio ei symmud. Nid oeddwn I y pryd hwnw yn alluog i daflu un goleuni ar y mater, ac nid wyf etto yn alluog i'w ddwyn i derfyniad boddhaol. Un o ddau beth yn unig a benderfyna awduraeth yr emyn, cael gafael mewn emyn-lyfr yn ei gynnwys cyn 1772, gyda'r enw wrtho; neu gael gafael yn yr emyn Seisnig gwreiddiol.

O'r braidd y mae Fafasor Powel yn teilyngu yr enw bardd, a'i farnu wrth yr enghreifftiau a welais I. Yr wyf yn deall bod yn arferiad yn yr amser gynt (yr oedd hyn cyn bod llyfrau emynau priodol) i'r pregethwr ollwng allan yr emyn yn debyg i'r bregeth, yn ddifyfyr (*extempore*). Os felly, nis gellid dysgwyl llawer o lewyrch arnynt. Gwnelai Pantycelyn hyny weithiau. Dyma enghraifft o un o emynau Fafasor Powel:—

"A HYMNE ON THE SABBOTH* [sic.] DAY.—p. 95.

"The rest of rests to me is Christ, in whom I do rejoyce;
His day a Sabboth is to me; 'tis not mine but his choice

* Mae rhywun wedi dywedyd mae anwybodaeth Peter Williams roddodd fodolaeth i'r ffurf hon o'r gair, yn lle Sabbath.

He rose and rested on that day to shew his work was done,
His blest example is my Rule, his Candle is my sun.
This is the Queen of dayes to me; for 'tis my King's birth day:
He was begotten from the dead that I might live for aye;
Not live in lust to do my will, but live to please my Lord,
To preach his word and sit at board, 'mong Saints of one record,
To pray and preach, to sing and praise, to meditate and talk,
From day dawning unto dark night, should be our work and walk."

Mae yr emyn hwn yn fwy llithrig nag yw ei emynau yn gyffredin. Yn 1650, cyhoeddwyd emyn o'i eiddo a ganwyd Hydref 8, 1650, "Being a day set apart for the total routing of the Scots Army in Musleborough Field." Dyma ychydig linellau :—

"To Christ the only King of Saints be praise eternally,
Which gave his Souldiers great honour and Kingly Victory.
Whom Satan would wisely subdue to those which are his enemie,
Lest (?) therefore offer unto him a willing secrasie," &c.
[Darllener "Let's."]

T. C. U.

DYSGU CREFYDD AR GOST Y TRETHI.

Dyma ddyfyniad allan o Gatecism newydd sydd wedi ei ddarparu gan ein brodyr o Eglwys Loegr, o'r hwn y mae tri-ugain mil a deg wedi eu hargraffu er ys rhai blynyddau :—

G.—Pa beth yr offrymwn yn y Cymun Sanctaidd?

A.—Bara a Gwin. Y rhai hyn wedi hyny a ddeuant yn Gorff a Gwaed Crist (1 Cor. x. 16), ac yna a offrymir o'r newydd, ac a gyflwynir i Dduw'r Tad.

G.—Pa fodd y daw'r bara a'r gwin yn Gorff a Gwaed Crist?

A.—Nis gallwn ddywedyd, oddieithr fod hyny trwy y weithred o gyssegriad a thrwy allu yr Yspryd Glan.

G.—Beth ddylai'r bobl wneuthur pan fyddo'r offeiriad yn offrymu'r bara a gwin.

A.—Dylent weddïo ar fod i'r Yspryd Glan ddisgyn arnynt, a'u gwneuthur hwy yn Gorff a Gwaed Crist.

G.—A ydyw y bara a'r gwin yn peidio bodoli ar ol y cyssegriad?

A.—Na, mae'r elfenau yn parhau yn fara a gwin fel o'r blaen; ond deuant i fod yr hyn nad oeddynt o'r blaen—yn Gorff a Gwaed *Crist.*

G.—Beth sydd yn cymmeryd lle pan gyhoeddir y fendith?

A.—Mae yr elfenau cyssegredig yn cael eu difa, a'r offeiriad yn cymmeryd y puredigaeth *(ablutions)?*

G.—Beth ydynt hwy?

A.—Dwfr a gwin wedi eu harllwys i'r cwpan cymun, ac yn cael eu llyncu gan yr offeiriad, fel na fyddo i ddim o'r Gwaed Gwerthfawr aros heb ei ddifa!!!

Dyma ddyfyniad allan o Gatecism Rhif 2, o'r hwn y mae 212 o filoedd wedi eu hargraffu. Mae wedi ei olygu gan Bwyllgor o offeiriaid, a chynnwysir a ganlyn ar Gonffirmasiwn :—

G.—Beth yw Conffirmasiwn ?

A.—Defod yw a weinyddir gan yr Esgob, yr hwn a esyd ei ddwylaw ar y rhai ydynt wedi eu bedyddio, a thrwy hyny a rydd iddynt yr Ysprydd Glân (Act. viii. 17 ; xix. 6).

G.—Pa bryd y sefydlwyd conffirmasiwn ?

A.—Tebyg ei fod yn un o'r "pethau a berthynent i Deyrnas Dduw," a ddysgodd yr *Arglwydd* i'w apostolion cyn ei esgyniad (Act. i. 3).

G.—Pa fodd y gwneir Cristnogion yn gryfion trwy gonffirmasiwn ?

A.—Trwy nerth yr Ysprydd Glân a roddid trwy osodiad dwylaw (Act. viii. 17).

G.—Onid yw hyn eisoes wedi ei wneuthur ini yn y Bedydd ?

A.—Dim ond yn rhanol. Yn y Bedydd fe'n gwneir yn Gristnogion gan yr Ysprydd Glân (1 Cor. xii. 13 ; Titus iii. 4) ; yn y conffirmasiwn *Efe* a'n nertha fel y delom yn Gristnogion perffaith (Act. viii. 16).

G.—Pa mor fynych y gellir derbyn y doniau hyn o eiddo yr Ysprydd Glân yn eu cyflawnder ?

A.—Dim ond unwaith mewn bywyd—yn amser conffirmasiwn (Heb. vi. 4—6).

Dyma ddyfyniad etto allan o Gatecism Rhif 3 :—

G.—Pa fodd y deuwn i wybod ystyr y Beibl ?

A.—Fe'n dysgir gan yr Eglwys.

G.—Paham yr ydym yn rhwym o gredu yr hyn a ddysgir gan yr Eglwys ?

A.—Am mae hi yw Colofn Gwirionedd.

G.—Pwy sydd yn arwain yr Eglwys i bob gwirionedd ?

A.—Duw'r Ysprydd Glân.

G.—A ydym yn rhwym o ufuddhau i'r Eglwys ?

A.—Ydym ; gan fod Crist wedi dywedyd wrth fugeiliaid yr Eglwys, "Y neb sydd yn eich gwrandaw chwi, sydd yn fy ngwrandaw i, a'r neb sydd yn eich dirmygu chwi sydd yn fy nirmygu i."

Wrth yr Eglwys yn y Catecism fe olygir Eglwys Loegr ; ac yn ngwyneb yr addysg a geir yma, fe weddai i ni ystyried beth i'w wneuthur pan welwn yr ymdrech i gael yr holl ysgolion dan ddylanwad yr Eglwys. Ai iawn dysgu catecism fel yr uchod i blant annghydffurfwyr ar draul y trethi ? Ateber.

X.Y.Z.

Cawn rai dynion yn pregethu trwy eiriau, ereill a'u harian, ac ereill drachefn trwy gadw yn llonydd.

TY YR ARGLWYDDI.

(Parhad o'r rhifyn diweddaf.)

DIWYGIAD SENEDDOL.

Nid oes angen gwell enghreifft o ansawdd meddwl Ty yr Arglwyddi parthed hawliau y bobl nâ'r hon a groniclwyd genym yn yr erthygl ddiweddaf. Yno gwelwn Dy y Cyffredin, wedi blynyddoedd meithion o "guro wrth y drws," yn ei agor yn rhyw gilagored, ac yn caniatau i ran o'r wlad gynnrychiolaeth Seneddol. Gwelwn yno hefyd y bendefigaeth yn ei holl ystrywiau yn ceisio cadw'r drws yn nghau. Yno gwelwn Dy y Cyffredin yn cydnabod, mewn rhan beth bynag, yr egwyddor o lywodraeth y bobl gan y bobl; ond yno y gwelwn hefyd yr Arglwyddi, hyd yr oedd ynddynt, yn cyhoeddi eu hanathema ar neu uwchben yr un egwyddor. Yno y canfyddwn Dy y Cyffredin yn fyw i'r cyfrifoldeb o lywodraethu y genedl yn unol â'i syniadau, ac felly yn gochelyd terfysgoedd enbyd; tra, o'r tu arall, y gwelwn Dy yr Arglwyddi yn ceisio ei llywodraethu megys wrth wallt ei phen, ac yn hytrach nâ gochelyd terfysgoedd, yn gwneyd ei hun yn achos uniongyrchiol i'r rhai mwyaf echryslon o honynt. Yno y gwelwn Dy y Cyffredin yn gweini yn ddoeth i amcanion gwreiddiol y cyfansoddiad gwladol, ond ar y llaw arall, cawn Dy yr Arglwyddi bron llwyddo i'w gorchfygu yn hollol. Pa beth allasai fod yn cyfrif am wrthwynebiad cyndyn y pendefigion i'r mesur diwygiadol? A oeddent yn tybio fod rhyddfreiniad y bobl yn annghydweddol â chyd-fodolaeth sefydliad fel Ty yr Arglwyddi? Ai tybed eu bod dan yr argraff y byddai yr enedigaeth a roddai y mesur uchod i egwyddorion gwerinol yn golygu difodiant hollol neu ranol o'u gorfaeliant a'u rhagorfreintiau personol hwy? Ond er holl ystyfnigrwydd, ymhoniaeth, a herfeiddiwch yr arglwyddi, i gadw eu traed megys ar wddf y genedl, yr oedd gweinyddiaeth Iarll Grey, yn ddirodres ond yn benderfynol, wedi gwneyd ei meddwl i fyny, doed a ddeuai, fod rhan fawr o honi i gael ei rhyddfreinio. Y cwestiwn yn awr oedd, sut i weithredu; a rhwng ffyrnigrwydd y wlad a chynddaredd y Ty Uchaf, ni fu adeg erioed yn hanes y wlad yn galw yn uwch am amynedd a sobrwydd meddwl o du ei llywodraethwyr. Cyn diwedd y flwyddyn 1831 yr oedd y weinidogaeth etto, am y drydedd waith, wedi dwyn ei mesur gerbron Ty y Cyffredin. Awd trwy y dadleuon gyda brwdfrydedd cynnyddol. Yn mis Mawrth, 1832, pasiodd y trydydd darlleniad gyda mwyafrif o 116. Yr oedd yr arglwyddi yn parhau i ddangos eu dannedd. Gwrthodai y weinyddiaeth fyned yn mlaen â dim arall, ac o wrthdystiad ychwanegol yn erbyn yr arglwyddi, ymddiswyddodd. Canlynodd wythnos gyffrous a blin. Yr oedd Ty y Cyffredin a chorff mawr y bobl yn dan poeth o blaid y weinyddiaeth a'r mesur; a bygythient beidio talu na threth na degwm heb i'r arglwyddi basio

y mesur. Cynnygiwyd ffurfio gweinyddiaeth newydd, ond ysgydwai Peel ei ben, ac ni feiddiai Wellington. Felly, galwyd Grey a'r Whigiaid yn ol i'w swyddi, ac addawodd y brenin wneyd ei oreu o blaid y mesur. Cynllun y prif weinidog oedd creu digon o arglwyddi newyddion i sicrhau tynghed y mesur. Teimlodd yr arglwyddi eu bod wedi eu tanseilio, ac y buasai y cynllun yn sicrhau mwyafrif yn y Ty Uchaf o blaid y weinyddiaeth; ac ar gais taer y brenin, absennolodd cynnifer o honynt eu hunain o'r Ty ar adeg y darlleniad, fel y goddefwyd iddo gael pasio mewn dystawrwydd dwfn. Felly, ar y 7fed o Fehefin, 1832, wedi ystormydd blinion, terfysgoedd peryglus, a cholliad llawer o fywydau, derbyniodd y *Reform Bill* y sêl freninol, a daeth yn un o gyfreithiau y tir. "The Lords gave way, not to reason, but to fear, and passed in deference to revolutionary menaces a measure which, little more than six months before, they had rejected by a majority of 41, and which they still believed to be fraught with mischief to the Crown and Constitution of England. They surrendered, not to argument, but to force, and afforded the nation the first great lesson that from the Lords, while nothing can be obtained by justice, everything can be wrung by violence. The voice of the representatives of the people is disregarded in the gilded chamber until it is re-echoed by the angry clamour of their constituents. The Lords can veto the measures of the Commons, but they are paralyzed by the menaces of the people. Their existence is a premium upon agitation, for to induce them to concede a reform, it is necessary to threaten them with a revolution. The winter of 1831-2 inaugurated the reign of the English democracy by teaching them to despise a second chamber so foolish as to reject one year as pernicious a measure which it was so weak as to enrol in the statue book of the next." GWERINWR.

NODYNAU GWASGAROG.

Y GEINIOG ddu ei hoced
Sy bica yn y boced,
Ac mae'n pigo fel y gwëyll,
Nes gyru'r lleill ar gerdded.—AMNON.

BEDDARGRAFF.

YR oedd yr hen weinidogion (yn wahanol i fwyafrif gweinidogion yr oes hon) yn hoff o dipyn o ddyfyrwch. Fel hyn y canodd y Dr. Thomas Rees (awdwr y *Beauties of South Wales*) i un o weinidogion Castell Nedd, yr hwn a dybid ei fod yn fwy hoff o'i wely nag y dylai fod:—

Hoc juxta marmor jacet Davy,
Gwr diog tost a garai 'i wely;
He now commands his heart's best joy
Sound lasting sleep without alloy;
Unless one thought can give him pain
The dread, O dire! to wake again.

Fe'i argraffwyd yn y *Cambrian* (?) fel hyn:—

Hoc juxta marmor jacet Ned,
A lazy drone that loved his bed.

Manion ac Hanesion.

HIGHLAND PLACE.—Dydd Iau, Medi 12, aeth y dosparth hynaf o aelodau Ysgol Sul y capel hwn am dro mewn cerbydau i Aberhonddu. Yr oedd y daith trwy Benderyn, ac heibio i weithiau dwfr Caerdydd, yn brydferth dros ben, a'r ymbleseru ar yr afon ger tref Brychan yn amheuthyn. Cafwyd *outing* ardderchog.

MERTHYR.—Dydd Iau, Medi 19, aeth aelodau Ysgol Sul Twynyrodyn ar eu pererindod blynyddol mewn cerbydau, yn cael eu llusgo gan feirch porthiantus, i ardal ramantus Pont-Nedd-Fechan, lle y treuliasant ddiwrnod o fwyniant pur.

DYDDOROL.—Bu dyn ieuanc, heb fod gan' milldir o'r Cefn, ar ymweliad â Lerpwl yr wythnos ddiweddaf, ac yn ystod ei arosiad yn y dref aeth i fewn i faelfa, lle y gwerthid llyfrau ail-law. Yr unig lyfr Cymraeg a welodd yno oedd copi newydd hollol o *Emynau o Fawl a Gweddi*, yr ail argraffiad. Prynodd y gwr ieuanc ef am chwe' cheiniog. Beth fu'r achos i'w berchenog cyntaf ymadael â'r llyfr, tybed?

CAPEL-Y-FADFA.—Cymmerodd gwyl de flynyddol yr eglwys hon le dydd Gwener, Awst 9, pan y mwynhaodd nifer mawr y te a'r bara brith. Yn yr hwyr cafwyd cyngherdd o radd uchel, pan y gwasanaethodd Parti y Rhondda ar yr achlysur. Y cadeirydd oedd Cadben Davies, Rhydowen Fach, a'r arweinydd oedd y Parch. W. J. Davies, gweinidog y lle Cafwyd gwledd gampus i'r corff a'r meddwl, a derbyniodd cyfeillion y Rhondda swm da at Gapel Undodaidd newydd y Pentre.

BRONDEIFI.—Rhoddodd ewyllyswyr da Ysgol Sul Brondeifi wledd o de a bara brith i aelodau yr Ysgol ac ychydig gyfeillion ar yr 11eg o Fedi ar dir Penlan, Pencarreg. Dyma'r *outing* gafodd yr ysgol dan yr enw *picnic*. Er ei bod yn amser prysur o'r flwyddyn, cyfranogodd rhyw 150 o'r danteithion, a mwynhaodd pawb eu hunain yn ardderchog, yn enwedig y plant.

CWM Y RHONDDA.—Byddwn yn ddiolchgar am ychydig ofod o'r YMOFYNYDD i ddatgan y rhwymau mawr sydd arnaf i'r cyfeillion yn Sir Aberteifi am y caredigrwydd gwresog a diddiwedd a ddangosasant i mi a'r cantorion oeddynt yn fy nghwmni pan yr ymwelasom â hwynt yn ddiweddar, ac y cynnaliasom gyfres o gyngherddau i'r dyben o gasglu ychydig arian tuag at ein cynnorthwyo i adeiladu ein capel, yn nghyd â'u cydymdeimlad mawr â'r amgylchiad yr ymwelasom â hwynt, a'r holl hunan-aberth a wnaethant i lafurio mor galed er gwneuthur y cyngherddau yn llwyddiannus. Yn arbenig felly y carwn ddiolch i'r Misses Evans, Taliesin House, Llanbedr, am eu parodrwydd siriol a charedig yn ymgymmeryd â r gorchwyl o fod yn gyfeilesau, yn nghyd â'r medrusrwydd clodfawr gyda'r hwn yr aethant drwy eu gwaith. Odid mai derbyniol gan y cyfeillion fyddai gweled y symiau a dderbyniwyd. Wele hwynt:—Capel-y-Bryn, £11; Llandyssul, £7 18s.; Bwlch-y-Fadfa, £8 17s.; Cribin, £3 19s.; oddiwrth y Parch Enoch Jenkins, Capel-y-Groes, £1 16s.; Llanbedr, £11 4s. 6ch.; cyfanswm, £49 14s. 6ch. Treuliau, £19 12s. 4c.; gweddill, £25 2s. 2g. Yr eiddoch yn wir ddiolchgar (dros gynnulleidfa Undodaidd Pentre Rhondda),

D. M. THOMAS.

86, Bute Street, Treorci.

O.Y.—Mae'r capel yn awr (Medi 12) dan do, ac yn edrych yn siriol dros ben. "Pan ofynant i mi yn Llundain," ebai Mr. Spears pan fu yma y Llun diweddaf yn ei weled, "pa beth a wnaeth yr argraff fwyaf arnaf yn ystod fy nheithiau yn Nghymru, atebaf hwynt mai'r capel prydferth hwn, a'r mynydd uchelgrib acw yn llawn ofnadwyaeth rhamant yn ei wylio megys *sentinel* tragwyddol!" Yr ydym yn llwyddo yma yn nannedd yr holl ragfarn sydd yn ysgyrnygu o'n deutu; ac er i un *contractor* neilldduol wrthod anfon *tender* i fewn rhag ofn y buasai trwy hyny yn "pechu yn erbyn yr Ysbryd Glân," a chael ei amddifadu o faddeuant yn y byd hwn a'r byd a ddaw, y mae'r capel, fel y dywedais, dan do, a'r *contractor*, yntau, yn

mwynhau maddeuant. Llawer ystori ddifyr a blasus, yn nglyn â'r Mudiad Rhagblaen yn y cwm, ellid ei chyfranu i'r YMOFYNYDD a fyddai yn damaid danteithiol i'w ddarllenwyr; ond gyda dweyd fod Capel Cwm Clydach, yntau, hefyd dan do, ac fod yr achos yn cerdded yn hwylus yno yn ogystal, dyma fi, rhag cymmeryd gormod o ofod, yn rhoi pen ar fy mwdwl.—D.M.T.

PRIODAS.

Awst 21, yn Nghapel Brondeifi, gan y Parch. R. C. Jones, Mr. Samuel Edwards, Cwmcanol, â Miss Hannah Davies, Plasbach, Pencarreg.

Marwgofion.

Mehefin 9, bu farw Margaret Thomas, priod anwyl Mr. Thomas Thomas, Bank-y-plas, Llandyssul, yn 57 oed, a chladdwyd hi yn Nghladdfa Eglwys y Plwyf y dydd Mercher canlynol. Dymunwn gydymdeimlo â Mr. Thomas yn ei golled enfawr, oblegyd ynddi collodd wraig ffyddlon, a mam dyner i'w phlant. Y mae Mr. Thomas bellach yn hollol gynnefin â glyn cysgod angeu, oblegyd y mae cenad angeu wedi ymweled â'i dy yn aml yn ddiweddar. Boed i'n hanwyl frawd edrych i fyny at y Tad mawr, yr hwn sydd yn trefnu y cyfan yn iawn, er fod y groes i lawer un yn galed i'w chario. Bendithied y Tad ef a'i blant yn eu galar mawr.

Mehefin 10, bu farw Mrs. Elizabeth Thomas, Richmond House, Llandyssul, priod Mr. J. D. Thomas, yn 76 oed. Yr oedd Mrs. Thomas yn fenyw serchog a mwynaidd, yn wraig ddarbodus, ac yn fam dyner i'w phlant. Cafodd ei theulu golled fawr ar ei hol. Bu yn aelod selog yn Llwynrhydowen, ac yn ddiweddarach yn Nghapel y Graig tra y bu fyw. Y dydd Iau canlynol cafodd gynhebrwng lluosog i gladdfa newydd Llwynrhydowen, lle y daearwyd ei gweddillion. Yn y ty cyn cychwyn gwasanaethodd y Parch. W. James, B.A., Y.H.; yn y capel ac ar lan y bedd y Parch. W. J. Davies; a thraddododd y Parch. T. A. Thomas bregeth angladdol yn Nghapel y Graig. Bendithied yr Arglwydd y teulu oll yn eu galar ar ol un oedd mor anwyl iddynt.

Awst 2, yn 29 oed, ar ol oes gyfan o wendid, Hannah, anwyl ferch Jane Lewis, Glanduar, ger Llanybyther. Claddwyd yn mynwent Alltypaca, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y gweinidog.

Awst 19, yn 4 mis oed, bu farw David Llewellyn Thomas, mebyn Mr. a Mrs. Thomas. 159, Court Street, Clydach Vale. Claddwyd y dydd Iau canlynol yn *Cemetery* Trealaw, pryd y gwasanaethwyd ar yr achlysur gan Ivor Davies.

Eich angel bach ehedodd
Uwch pob rhyw boen a chlwy';
Adfydau blin y ddaear
Ni ddeuant ato mwy.

Awst 21, bu farw Mrs. Margaret Thomas, priod Mr D Thomas, Lonlas, yn 45 oed. Nid oedd iechyd Mrs. Thomas wedi bod yn dda er ys blynyddau bellach, ond yr oedd yn dra ysprydol serch hyny, a dyoddefai ei anhwylder yn hynod amyneddgar. Merch ydoedd i'r diweddar J. Thomas, *Factory* Talgarreg. Menyw fwynaidd a llawen oedd yr ymadawedig. Bu yn wraig ddarbodus, ac yn Gristion trylwyr, ac yn aelod selog yn Nghapel y Fadfa yn ystod ei hoes. Y dydd Sadwrn canlynol daeth cynhebrwg lluosog i dalu iddi y gymmwynas olaf trwy gludo ei gweddillion marwol i gladdfa Capel y Fadfa. Gwasanaethodd y Parch. W. J. Davies, eu gweinidog, ar yr achlysur, yn cael ei gynnorthwyo gan y Parchn. T. R. Davies (A), Pisgah, a J. Davies, Alltyplaca. Yr oedd y Parch T. Thomas, Y.H., hefyd yn yr angladd. Boed i Mr. Thomas sugno cysur oddiwrth Dad y trugareddau yn ei alar a'i drallod.

Awst 29, yn 92 oed, bu farw Margaret Jones, Ty Rhys, Llandyssul, a chladdwyd hi y Llun canlynol yn Pantdefaid. Dechreuwyd y gwasanaeth yn y capel gan y Parch. T. A. Thomas, a phregethodd y y cyn-weinidog T.T. Blwyddyn i Mawrth diweddaf claddwyd ei phriod yn 86 oed. Yr oedd y ddau wedi bod yn aelodau ffyddlon o gynnulleidfa Pantdefaid am flynyddau meithion, a mynychent yr addoliad eu dau gyda'u gilydd hyd o fewn ychydig amser i'w marwolaeth, er yn byw gryn bellder o'r capel. Cywilydd i lawer o'r ieuenctyd presennol.

Awst 29, yn 77 oed, James Evans, Drefach, Llanwnen. Claddwyd y Llun canlynol yn nghladdfa'r teulu, yn mynwent Aberduar. Cyflawnwyd y gwasanaeth yn y ty, yn ol dymuniad yr ymadawedig, gan y Parch. J. Davies, Alltyplaca, a'r gweddill yn y capel a'r fynwent gan y Parchedigion H James ac Evan Phillips. Bedyddiwr Undodaidd oedd yr hen frawd o ran ei dduwinyddiaeth; a dyn y perthynai iddo lawer o rinweddau. Boed modd i'w weddw oedranus a'i ddau fab i alaru'n gymmedrol ar ei ol.

Medi 9, yn 61 mlwydd oed, ar ol blynyddau o gystudd, Mary Davies, Pantyrodyn, ger New Inn, Sir Gaerfyrddin. Y dydd Iau canlynol claddwyd yr hyn oedd farwol o honi yn nghladdfa'r teulu, yn mynwent Llanwnen. Cyflawnwyd y gwasanaeth ar yr achlysur yn y ty gan y Parch. J. Davies, Alltyplaca, ac yn yr eglwys a'r fynwent, gan ficer parchus y plwyf.

Medi 9, bu farw Daniel Jones, Pensarn, ger Cwrtnewydd, Llanwenog. Pan allan gyda'r bobl yn y cae yn ddiwyd yn rhwymo'r ŷd, a'r gwres ar y dydd hwnw yn fawr iawn, gwelwyd ef wrth gario'r ysgubau at eu gilydd yn syrthio yn ddisymmwth ar ei gefn, a bu farw heb allu dweyd gair wrth neb. Dywedai pawb oedd yn ei 'nabod mai dyn diniwed iawn, a chymmwynasgar i'r eithaf oedd Dan. Gadawodd dri mab a dwy ferch mewn galar mawr ar ei ol. Claddwyd ef prydnawn dydd Mercher yn Mynwent St. John, Llandyssul, lle yr oedd ei wraig wedi ei chladdu flynyddau yn ol. Pregethodd T T yn Pensarn Dechreuwyd y cyfarfod trwy ddarllen a gweddio gan y Parch. Mr. Phillips, gweinidog y Bedyddwyr yn Cwrtnewydd a chapel yr Hafod.

Medi 13. bu farw Miss Hannah James, Blaencwm, plwyf Llandyssul, ar ol nychdod maith, yn 41 oed. Y dydd Llun canlynol daeth cynhebrwng lluosog yn nghyd i dalu iddi y gymmwynas olaf drwy gludo ei gweddillion marwol i gladdfa newydd Llwynrhydowen. Yn y ty ac yn y Llwyn gwasanaethodd y Parch. W. J. Davies. Yr oedd Miss James yn ddynes dawel a mwynaidd, o rodiad ardderchog, ac yn aelod ffyddlawn o Eglwys Llwynrhydowen. Caffed ei mam oedranus a'r teulu oll gysur oddiwrth yr Arglwydd yn eu galar, a boed iddynt osod en pwys ar fendithion Efengyl ein Harglwydd Iesu Grist. Gobeithiwn y ca Mrs. James adferiad o'i anhwylder.

Medi 13, bu farw yn 19 diwrnod oed, Gwilym, baban Mr. a Mrs. James Jones, Gelliaur. Claddwyd ei weddillion marwol y dydd Llun canlynol yn nghladdfa Pantydefaid, a'r Parch. W. J. Davies yn gwasanaethu. Cofied y rhieni eiriau cysurlawn yr Iesu: "Eiddo y cyfryw rhai yw teyrnas nefoedd."

Medi 14, yn 18 oed, Catherine, unig ferch Lewis a Hannah Hopkin, Cathylid, ger Clydach. Yr *inflammation* oedd achosydd ei marwolaeth. Tarawyd hi yn glaf prydnawn dydd Gwener, a bu farw dydd Sadwrn. Wrth hyn gwelir pa mor ansicr ydyw bywyd dyn. Y mae yn rhyfedd, onid yw, pa fodd y gall dyn fod mor anystyriol gyda dyledswyddau bywyd. Cydymdeimlir yn fawr iawn â'r teulu trallodedig yn ei ddillad duon ar ol Catherine anwyl, yr hon a addurnai yr aelwyd gyda sirioldeb. Nid oes ond tua chwe' mis er pan yr ymaelododd yn Eglwys Gellionen, ond y mae wedi symmud gam yn mlaen: wedi ymaelodi yn un o deulu'r ffydd gyda Christ. Y dydd Mercher canlynol daeth torf enfawr yn nghyd i gludo ei gweddillion marwol i gladdfa Eglwys Gellionen. Yr oedd yn bresennol yn ei hangladd y Parchn. E. Owens, Clydach (A.); R. Lewis, Craigcefnparc (B.); a B. Lewis, Llangyfelach (B.) Gweinyddodd y myfyriwr ieuanc, Mr. J. Jenkins, Llanbedr, ar yr achlysur gyda chymmeradwyaeth fawr. Bydded i rieni, perthynasau, cyfeillion, a chyfeillesau yr ymadawedig ymostwng yn dawel i drefn ddoeth y Duw daionus.

Marwolaeth ein hanwyl gyfeilles a fu
Yn annysgwyliadwy amgylchiad,
A mawr yw y galar a geir o bob tu
Yn herwydd ei sydyn symmudiad.
Nid marw 'mo honi, ond cysgu y mae
Dan ofal yr Arglwydd, o gyrhaedd pob gwae.

Medi 16, Ada, mebyn Lewis a Jane Lewis, Tai Grawen, Cefn Coed, yn dair wythnos oed. Dydd Mercher hebryngwyd gweddillion yr un fechan i fynwent yr Hen Dy Cwrdd Gwasanaethwyd yn y ty gan J. Hathren Davies. Cofied y rhieni trallodus fod "plant yn etifeddiaeth yr Arglwydd."